CYWAIN

Mae Cywain yn rhaglen sydd wedi ymrwymo i ddatblygu busnesau micro a busnesau bach a chanolig newydd neu sydd eisoes yn bodoli yn y sector bwyd a diod yng Nghymru. Mae Cywain (sy'n golygu i gasglu neu i gynaeafu), yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gyfleoedd a'r potensial i dyfu.

Mae tair ffrwd i Cywain:

- MICRO
  Gweithio'n benodol gyda busnesau cychwynnol a busnesau sydd am dyfu i ddatblygu gweledigaeth a chapasiti, ychwanegu gwerth at gynnyrch, gwella gwerthiant a thargedu marchnadoedd newydd.

- CLYSTYRU
  Targedu busnesau sydd eisoes wedi'u sefydlu ac yn awyddus i dyfu drwy rwydweithio a chydweithio. Mae clystyru yn annog creu grŵp o fusnesau sydd o'r un meddylfryd, gyda'r nod o gynyddu cynhyrchiant, hybu arloesedd ac ysgogi busnes newydd. Mae Cywain yn arwain ar dri chlwstwr; Clwstwr Bwyd Da, Clwstwr Bwyd Môr a'r Clwstwr Mêl.

- CRAIDD
  Ar gyfer busnesau sy'n awyddus i dderbyn newyddion a datblygiadau diweddaraf y diwydiant gyda mynediad at weithdai, digwyddiadau a gwybodaeth am y farchnad.

Er mwyn cymryd rhan, mae'n ofynnol i gleientiaid gwblhau Diagnostig Busnes gydag aelod o dîm Cywain, sy'n rhoi cyfle i ganolbwyntio ar wydnwch busnes, cynaliadwyedd a datblygu cynlluniau twf ar gyfer y dyfodol.

Mae gan gleientiaid Cywain fynediad at:

- Gwasanaeth Cynllunio ac ymgynghori un i un

- Gweithdai, digwyddiadau a theithiau astudio penodol i'r sector

- Mynediad i fentoriaid arbenigol, gwybodaeth am y farchnad a datblygu brand

- Hyfforddiant ar werthu, llwybrau i farchnad a thwf

- Mecanwaith i herio rhwystrau i dwf

- Gweithgareddau datblygu marchnad a phrosiectau arbenigol

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni:
cywain@menterabusnes.co.uk
01745 770036
www.menterabusnes.co.uk/cywain